**Tasg 1**

# Calon wrth galon

Darllenwch yr erthygl papur newydd am brotest disgyblion yr Unol Daleithiau eto. Mae llawer o drychinebau o'r fath wedi digwydd mewn ysgolion yn yr Unol Daleithiau dros y blynyddoedd.

Edrychwch ar y we am wybodaeth am y trychinebau canlynol:

- Ysgol Uwchradd Columbine, Littleton, Colorado – 20 Ebrill 1999
- Ysgol Gynradd Sandy Hook, Newton, Connecticut – 14 Rhagfyr 2012
- Ysgol Uwchradd Sir Marshall, Kentucky – 23 Ionawr 2018

Casglwch y wybodaeth ganlynol:

| Ble? | Pryd? | Faint gafodd eu lladd? | Faint gafodd eu hanafu? | Pwy oedd y llofrudd? | Rhesymau am y trychineb? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Nawr chwiliwch am yr un wybodaeth ar gyfer y digwyddiad yma ym Mhrydain:

- Ysgol Gynradd Dunblane, Stirling, yr Alban – 13 Mawrth 1996

| Ble? | Pryd? | Faint gafodd eu lladd? | Faint gafodd eu hanafu? | Pwy oedd y llofrudd? | Rhesymau am y trychineb? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

1. Pam ydych chi'n meddwl bod cymaint o drychinebau fel hyn yn digwydd mewn ysgolion yn yr Unol Daleithiau?

2. Pam ydych chi'n meddwl bod llai o drychinebau fel hyn yn digwydd mewn ysgolion ym Mhrydain?

3. Ydych chi'n meddwl bod modd gwneud rhywbeth i rwystro trychinebau fel hyn rhag digwydd eto?

4. Ers y trychineb yn Dunblane, newidiwyd y deddfau'n ymwneud â phrynu a chadw gynau ym Mhrydain. Beth am lunio rhestr o bethau y gellid eu gwneud i rwystro trychinebau fel hyn rhag digwydd eto yn yr Unol Daleithiau? Cofiwch nodi beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, a beth sydd angen gwneud i newid y sefyllfa honno.

| Y sefyllfa bresennol | Gwelliant |
|---|---|
| | |

5. Ydych chi'n meddwl y bydd protest calon disgyblion Fflorida a gweddill yr Unol Daleithiau yn gwneud rhywbeth i newid y sefyllfa? Os felly, pam?

| |
|---|
| |